

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Meddianwyr a gweithwyr

Faint o bobl oedd yn gweithio yma?

Byddai'r 2 lawr uchaf wedi cael 22 ffenestr yn wreiddiol, gyda gwŷdd ar bob ffenestr. Byddai pob gwŷdd wedi cael un gwehydd, gyda rhywfaint o gymorth gan blentyn o bosibl.

Cymerodd 5 nyddwr i ddarparu'r gwlân ar gyfer un gwŷdd. Gwnaed llawer o'r nyddu yn y cartref, ac mae'n debyg bod rhywfaint o hyn wedi'i wneud yn y bythynnod islaw'r gwyddiau. Roedd y cyflenwad o wlân yn dymhorol felly nid oedd gwaith ar gael trwy gydol y flwyddyn.

Mae trigolion Penygloddfa (yr ardal o amgylch yr amgueddfa) ym 1841 — y flwyddyn gyntaf i'r cyfrifiad gofnodi galwedigaethau — yn cynnwys dynion a menywod yn eu 70au yn gweithio fel gwehyddion a nyddwyr. Cofnodwyd hefyd fod plant yn eu harddegau mor ifanc â 14 oed yn gweithio yn y diwydiant gwlân.

Weithiau cofnodir bod hyd at 10 ac yn aml cymaint â 7 neu 8 o bobl yn byw yn y tai bach hyn a oedd felly'n orlawn. Mae dadansoddiad rhagarweiniol o ddata diweddarach y cyfrifiad yn rhoi manylion tebyg. Erbyn y 1890au, newidiwyd y chwe bwthyn i fod yn dri annedd.

A oedd plant yn gweithio yma?

Nid oedd y rhan fwyaf o blant yn mynd i'r ysgol yn y 1830au, ac mewn unrhyw achos, nid oeddent yn mynd tan ar ôl eu bod yn tua 12 oed. Byddent wedi gweithio'n swyddogol ac yn answyddogol gyda'u rhieni. Roeddent yn gweithio oriau hir mewn amgylchiadau anodd, ond nid oedd mor beryglus gweithio gyda'r gwyddiau llaw ag yr oedd yn y ffatrioedd mecanyddol mawr.

Pa fwyd oedden nhw'n ei goginio a sut?

Byddai bron y cyfan o'r bwyd wedi cael ei gynhyrchu'n lleol. Yn y blynyddoedd cynnar, roedd rhandiroedd gerllaw lle gallai teuluoedd dyfu llysiau. Byddai eu deiet, a oedd yn gyffredinol wael yn ôl safonau modern, wedi cynnwys tatws, wyau, cig dafad, llaeth a bara. Roedd bwyd ar gael yn haws nag mewn dinasoedd mawr. Gan fod y dŵr o'r ffynnon yn aml yn halogedig, byddent yn aml yn yfed cwrw. Roeddent yn coginio ar y tân agored yn eu bythynnod.

O ble oedden nhw'n cael eu bwyd?

Tan y 1840au pan gawsant eu gwahardd, roedd y gwneuthurwyr gwlanenni yn aml yn berchen ar y siopau lleol - a elwid yn 'Siopau Tommy' neu 'Siopau Tryc' ac roedd yn rhaid i'w gweithwyr brynu eu bwyd yno, yn aml am brisiau chwyddedig neu'n gyfnewid am docynnau a roddid am waith. Collwyd rhandiroedd yn raddol wrth i dai a ffatrioedd gwehyddu gael eu hadeiladu yn yr ardal.

Pryd oedd y teuluoedd olaf yn byw yma?

Roedd pobl yn dal i fyw yn y chwe thŷ bach, a addaswyd yn dri ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tan 1990. O'r adeg yr agorodd yr Amgueddfa ym 1967 tan 1990, roedd un o'r tri bwthyn yn aml yn gartref i ofalwr yr amgueddfa.

Pa mor wreiddiol yw'r dodrefn?

Nid yw'r dodrefn yn dod o'r adeilad hwn yn benodol ond fe'i dewiswyd i gynrychioli'r cyfnod. Mae'r ystafell ar waelod y grisiau yn dangos amser pan oedd un ystafell fyw yn unig ar gyfer y teulu cyfan. Mae'r ystafell ger y Dderbynfa o gyfnod tebyg neu efallai ar ôl cyfuno'r parau o fythynnod fel bod gan bob teulu 2 ystafell fyw.